

Nodyn atodol: trosolwg

Datblygu gweledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru a strategaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru

Byddem yn hoffi gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion i lunio Gweledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon y gall sefydliadau ledled Cymru ymrwymo iddi. Bydd Chwaraeon Cymru yn cydlynu'r Weledigaeth – ond nid gweledigaeth Chwaraeon Cymru fydd hon. Rydym yn bwriadu cynnwys amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau i helpu i sicrhau bod hon yn Weledigaeth i bawb.

Cynllun drafft yw'r ddogfen hon sy'n datgan sut rydym yn bwriadu rheoli'r broses a byddem yn croesawu safbwyntiau pobl.

Rydym yn awyddus iawn i weithio gyda sefydliadau a defnyddio eich rhwydweithiau fel bod cymaint o bobl â phosib yn gallu cyfrannu at y Weledigaeth.

Rydym yn cynllunio tri cham i'r gwaith hwn:

- y cam cynllunio a throchi. Byddwn yn casglu data a thystiolaeth am y rhwystrau mae gwahanol grwpiau o bobl yn eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan mewn chwaraeon a/neu weithgareddau eraill.
- cam gwrandio yr ydym yn bwriadu ei ddechrau ar 7 Tachwedd pryd byddwn yn gwahodd pobl i rannu eu syniadau ar gyfer Gweledigaeth newydd. Byddwn yn gwahodd pobl i gymryd rhan mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys cyfarfodydd, digwyddiadau, ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy arolygon ar-lein. Hefyd byddwn yn cyhoeddi nifer o ddogfennau trafod a blogiau yn ystod y cam hwn ac yn gwahodd pobl i wneud yr un fath.
- Yng ngwanwyn 2018 bydd ymgynghoriad ac yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn cyhoeddi Gweledigaeth ddrafft ac yn gofyn i sefydliadau am sylwadau pellach.

Rydym yn gobeithio y bydd cymaint o sefydliadau â phosib yn cymryd rhan fel bod gweledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon yn cael ei datblygu a'i chefnogi'n dda.

Hefyd byddwn yn gwahodd pobl i rannu eu syniadau gyda ni wrth i ni ddatblygu strategaeth pum mlynedd newydd ar gyfer Chwaraeon Cymru – strategaeth sy'n gosod ffocws ein sefydliad ar gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u datgan yn y Weledigaeth.

**Datblygu gweledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon
yng Nghymru a strategaeth ar gyfer Chwaraeon
Cymru**

Y sgwrs – cynllun ymgysylltu ac ymgynghori

Fersiwn 1

Paratowyd gan Chwaraeon Cymru, Hydref 2017

Cynnwys

Adran 1		
1.1	Cyflwyniad	4
1.2	Pwrpas ac amcanion	5
1.3	Mwy am y Weledigaeth	5
1.4	Mwy am y Strategaeth newydd ar gyfer Chwaraeon Cymru	6
1.5	Egwyddorion y Sgwrs	6
1.6	Cynulleidfaoedd	8
1.7	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	8
1.8	Cyfathrebu	9
Adran 2		
2.1	<u>Cam 1: Trochi</u>	10
2.1.1	Deall deddfwriaeth a gofynion polisi Llywodraeth Cymru	10
2.1.2	Y materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru	11
2.2	<u>Cam 2: Gwrando a llunio (creu ar y cyd)</u>	13
2.2.1	Gwahodd ymatebion	13
2.2.2	Cyfarfodydd	13
2.2.3	Grŵp cyfeirio rhanddeiliaid	14
2.2.4	Panel dinasyddion a chynnwys unigolion	14
2.2.5	Digwyddiadau	14
2.2.6	Grwpiau ffocws	15
2.2.7	Defnyddio digwyddiadau a rhwydweithiau eraill	15
2.2.8	Cyfryngau cymdeithasol	16
2.2.9	Datblygu dogfennau drafft ar gyfer y Weledigaeth a'r Strategaeth	16
2.3	<u>Cam 3: Yr Ymgynghoriad</u>	16
2.3.1	Cyhoeddi Gweledigaeth ddrafft a Strategaeth ddrafft	16
2.3.2	Ffurflen ymateb yr ymgynghoriad	17
2.3.3	Cyhoeddi dogfennau drafft	17
2.3.4	Gweithgarwch wyneb yn wyneb	17
2.3.5	Casglu a dadansoddi adborth	18
2.4	<u>Cam 4: Ymrwymo a lansio</u>	19
2.3.6	Cyhoeddi'r dogfennau terfynol	19
Atodiadau		
	Atodiad 1: Llinell Amser	20
	Atodiad 2: Grwpiau â nodweddion gwarchoddedig	21
	Atodiad 3: Llywodraethu	23

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn datgan dull drafft Chwaraeon Cymru o weithredu er mwyn cynnal rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr i wrando ar safbwyntiau amrywiaeth eang o bobl am ddyfodol chwaraeon.

Ar 3 Hydref 2017, gwnaeth Rebecca Evans AC ddatganiad pwysig yn y Senedd gan nodi gofynion penodol ar gyfer Chwaraeon Cymru. Mae'r datganiad i'w weld [yma](#).

Ar ôl datganiad 3 Hydref cafwyd [Adolygiad o Chwaraeon Cymru](#) a gyhoeddwyd yn ystod haf 2017 ac roedd yn cynnwys argymhellion i Chwaraeon Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i ystyried eu safbwyntiau.

Mae Chwaraeon Cymru wedi croesawu'r Adolygiad a'r datganiad gan Lywodraeth Cymru. Bydd y gwaith ymgysylltu'n gwneud y canlynol:

- Gofyn am fewnbwn pobl i weledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon ledled ein gwlad sy'n cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid allweddol ac yn sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer y dyfodol yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru sydd wedi'i ddatgan yn *Ffyniant i Bawb* a deddfwriaethau perthnasol
- Ymgysylltu â phobl ledled Cymru ar ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Chwaraeon Cymru fel bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan a chyflawni eu potensial mewn chwaraeon.

Bydd ein dull o weithredu'n ystyried y gwaith blaenorol sydd wedi cael ei wneud a'i gyfrannu gan randdeiliaid, yn ogystal â dogfennau polisi a chyfarwyddyd allweddol. Yn benodol, bydd y rhaglen hon yn rhoi sylw i rôl chwaraeon mewn cyflawni'r ymrwymadau sydd wedi'u datgan yn *Ffyniant i Bawb* a bodloni gofynion deddfwriaethol, gan gynnwys *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Mae'r cynllun hwn yn datgan ein hargymhellion arfaethedig ar gyfer creu cyfnod ymgysylltu cadarn, ystyrlon a thrwyadl. Drafft yw hwn ac rydym yn croesawu syniadau pobl ar gyfer ei wella.

1.2 Pwrpas ac amcanion

Prif bwrpas Y Sgwrs yw ymgysylltu ac ymgynghori - cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid mewn sgwrs ddwy ffordd ddidwyll am y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a datblygu'r Strategaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru. Byddwn yn casglu safbwyntiau, sylwadau ac adborth ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried yn ofalus wrth i'r dogfennau gael eu drafftio.

Nod y broses ymgysylltu yw cyflawni'r amcanion canlynol:

- Sicrhau ymgysylltu didwyll a chyfranogiad gan y cyhoedd yn y broses drwy godi ymwybyddiaeth yn eang a darparu cyfleoedd niferus i gymryd rhan
- Sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth lawn a diweddar am y rhaglen a sut gallant gymryd rhan
- Ymgysylltu ag amrywiaeth mor eang â phosib o gyfranogwyr, gan gynnwys grwpiau sydd â chyfraddau cymryd rhan isel mewn chwaraeon, i ddeall yr holl safbwyntiau posib
- Casglu adborth am y cynigion mewn fformat cadarn ac archwiliadwy
- Bodloni canllawiau arfer gorau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl

1.3 Mwy am y Weledigaeth

- Rydym eisiau gwrandao ar syniadau ac awgrymiadau pobl i helpu i lunio gweledigaeth sy'n ystyried anghenion pawb yng Nghymru
- Byddwn yn annog amrywiaeth eang o sefydliadau, cymunedau ac unigolion ledled Cymru i gymryd rhan er mwyn ein helpu ni i greu gweledigaeth newydd gyffrous ar gyfer chwaraeon yng Nghymru
- Byddwn yn ymgynghori â phobl Cymru i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i leisio eu barn
- Bydd y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yn datgan y cyfraniad y gall chwaraeon ei wneud i rymuso pawb yng Nghymru i gyflawni eu potensial eu hunain
- Bydd y weledigaeth yn datgan cyfraniad chwaraeon at ein cenedl, gan gynnwys datblygu'r athletwyr gorau
- Hefyd bydd y weledigaeth yn datgan sut gall chwaraeon wneud ein cymunedau ni'n fwy egniol, gan gyflawni yn erbyn yr ymrwymadau sydd

wedi'u datgan yn *Ffyniant i Bawb* a bodloni gofynion deddfwriaethol, gan gynnwys *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

1.4 Mwy am y Strategaeth newydd ar gyfer Chwaraeon Cymru

- Bydd y Strategaeth yn datgan y blaenoriaethau a'r meysydd gwaith allweddol y mae Chwaraeon Cymru'n atebol amdanynt yn ystod y pum mlynedd nesaf
- Hefyd bydd y Strategaeth yn datgan sut byddwn ni – gan weithio'n agos gyda'n partneriaid – yn cael y genedl i fod yn fwy egniol, gan gyflawni ein cyfraniad at yr ymrwymadau sydd wedi'u datgan yn *Ffyniant i Bawb* a bodloni gofynion deddfwriaethol, gan gynnwys *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*
- Bydd cydweithwyr Chwaraeon Cymru a sefydliadau allanol ledled Cymru'n cael gwahoddiad i gyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth newydd
- Byddwn yn gwahodd pobl i gymryd rhan mewn gweithdai a digwyddiadau fel ein bod yn gallu gwrandao ar safbwyntiau pobl
- Bydd pob syniad ac awgrym yn cael ystyriaeth ofalus
- Byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd ar y Strategaeth ddrafft a'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.

1.5 Egwyddorion y Sgwrs

Mae'r dull o weithredu rydym yn ei fabwysiadu ar gyfer y darn gwaith hwn yn seiliedig ar ddyhead didwyll i ymgysylltu'n eang a gwrandao ar ymatebion pobl i helpu fel sail ar gyfer dyfodol chwaraeon yn y wlad hon. Bydd y Sgwrs yn cael ei chyflwyno yn unol â'r egwyddorion canlynol:

Egwyddor	Sut byddwn yn ei chyflawni
Tryloyw Bydd y broses yn agored a bydd yr adborth a gesglir yn gallu dylanwadu'n sylweddol ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.	Byddwn yn agored am y broses ac yn anfon gwybodaeth gyson at bobl. Hefyd byddwn yn glir am ffiniau'r sgwrs. Bydd yr adborth yn cael ei ystyried yn drwyadl cyn i benderfyniadau gael eu gwneud.
Didwyll Daw'r adborth ar yr amser priodol i fod yn sail i benderfyniadau sydd heb eu gwneud eto.	Ni fydd unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud nes i adborth yr ymgynghoriad gael ei ddadansoddi. Bydd digon o amser ar ôl yr ymgynghoriad i addasu'r cynigion ar ôl ystyried yr adborth.

	Bydd tîm y rhaglen yn cadw meddwl agored ar gyfer pob sylw ac awgrym.
<i>Cynhwysol</i> Bydd y rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio'n cael eu hannog i leisio eu barn.	Byddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i brofi a sicrhau bod y dulliau cyfathrebu a gynigir yn cynnig cyfle i bawb yng Nghymru allu cymryd rhan.
<i>Gonest</i> Bydd y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n agored ac yn onest.	Bydd yr holl gyfathrebu'n onest, yn agored ac yn gadarn yn gyfreithiol. Os nad oes modd i adborth rhanddeiliaid ddylanwadu ar benderfyniad, bydd hynny'n cael ei gyfathrebu'n glir.
<i>Cymesur a theg</i> Bydd yr ymgynghoriad a gyflwynir yn gymesur i effaith bosib y cynigion.	Byddwn yn amrywio lefel yr ymgysylltu i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas.
<i>Amserol</i> Bydd yr ymgysylltu a'r ymgynghori'n digwydd cyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Bydd digon o amser i bobl ymateb yn rhesymegol.	Bydd yr ymgysylltu a'r ymgynghori'n cael eu hamseru i sicrhau bod modd ystyried yr adborth ac, os yw hynny'n briodol, ei gynnwys cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.
<i>Hygyrch</i> Bydd unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan yn gallu gwneud hynny, yn hawdd.	Bydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn fformatau clir, syml a defnyddiwr-gyfeillgar, a bydd amrywiaeth o dulliau ymgysylltu'n cael eu teilwra i anghenion gwahanol grwpiau. Bydd y deunyddiau ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.
<i>Effeithlon</i> Gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.	Os yw hynny'n bosib, byddwn yn gweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid ac yn defnyddio eu sianelau cyfathrebu.
<i>Dealladwy</i> Bydd y bobl sy'n gweld y deunyddiau ymgysylltu ac ymgynghori, ac yn mynychu'r digwyddiadau, yn gallu deall y wybodaeth.	Ni fydd jargon yn y wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn ddealladwy.
<i>Cynhyrchiol</i> Bydd yr holl adborth yn cael ei gasglu, ei roi at ei gilydd a'i gyflwyno i'r bobl berthnasol sy'n gwneud penderfyniadau.	Bydd mecanweithiau casglu data cadarn yn eu lle i sicrhau bod yr holl adborth yn cael ei gasglu'n llawn fel bod modd ei ystyried.
<i>Adeiladu ar arfer gorau</i> Bydd yr ymgysylltu'n ystyried y wybodaeth bresennol a'r arfer gorau.	Bydd syniadau presennol y mae sefydliadau wedi'u hawgrymu eisoes, a datblygiadau newydd sydd eisoes ar droed, yn cael eu hystyried.
<i>Parchus</i> Bydd pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfraniad.	Diolchir i bobl am eu cyfraniad a byddant yn cael gwybod am y penderfyniadau a'r camau gweithredu o ganlyniad.

1.6 Cynulleidfaoedd

Mae gwahoddiad i bawb ymuno yn y Sgwrs. Mae'r gwahanol dechnegau ymgysylltu y byddwn yn eu defnyddio'n adlewyrchu ein dyhead i glywed gan bobl ledled Cymru.

Byddwn hefyd yn estyn allan at amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y canlynol:

- Y sector chwaraeon gan gynnwys athletwyr, Cyrff Rheoli Cenedlaethol a chyrrff chwaraeon eraill, clybiau a chymdeithasau
- Awdurdodau lleol gan gynnwys gwleidyddion lleol
- Sefydliadau cymunedol a'r trydydd sector, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau difreintiedig a phobl o grwpiau gweithgarwch lefel isel
- Cynrychiolwyr gan gynnwys gwleidyddion
- Swyddogion cyhoeddus, Comisiynwyr a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Sefydliadau iechyd gan gynnwys y rhai sydd â'u ffocws ar iechyd cyhoeddus a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen
- Y sector addysg gan gynnwys cyrrff ysgolion, colegau addysg bellach a phrifysgolion
- Y sector hamdden dan do ac awyr agored gan gynnwys canolfannau hamdden, campfeydd ac amrywiaeth eang o ddarparwyr eraill
- Y cyfryngau yng Nghymru
- Y sector preifat gan gynnwys entrepreneuriaid a chymdeithasau busnes.

1.7 Aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd priodol i estyn allan at y grwpiau hynny nad ydym yn clywed llawer ganddynt a grwpiau anodd eu cyrraedd, a gwrando ar eu hadborth. Mae hyn yn hynod bwysig o ystyried y lefelau gweithgarwch is ymhlith pobl anabl, y rhai mewn cymunedau economaidd-gymdeithasol is a phobl o ardaloedd gwledig. Mae Atodiad 3 yn datgan sut rydym yn bwriadu diwallu anghenion yr holl grwpiau anodd eu cyrraedd – y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig fel y'u gelwir.

Bydd yr holl ddeunyddiau i'r cyhoedd yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg ac yn Saesneg yn safonol. Bydd fformatau eraill, fel print mawr a deunyddiau mewn ieithoedd eraill, ar gael hefyd ar gais. Hefyd bydd y digwyddiadau rydym yn eu cynnal yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd rhaid ysgrifennu'r ddogfen mewn iaith syml a'i chyflwyno mewn fformat hygyrch. Yn naturiol, bydd rhaid i'r

ddogfen fod ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg (ar yr un pryd); hefyd dylai gwahanol fformatau ar gyfer pobl anabl a fersiynau mewn ieithoedd eraill fod ar gael ar gais. Byddwn yn darparu tystiolaeth mewn Adroddiad Ymgysylltu o lefel y rhyngweithio a'r ymgysylltu gan grwpiau sy'n cynrychioli'r prif feysydd cyfrifoldeb: oedran (pobl ifanc a phobl hŷn), rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, anabled a gofalgwyr.

1.8 Cyfathrebu

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses hon. Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif gyfryngau a ddefnyddir gennym i godi ymwybyddiaeth er mwyn annog pobl i gymryd rhan, yn ogystal â sut byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am y cynnydd sy'n cael ei wneud.

- Bydd tudalen benodol ar wefan www.chwaraeon.cymru am y broses yn gweithredu fel porthol ar gyfer diweddariadau ar y broses. Hefyd bydd cyfleoedd i gyflwyno adborth, gwneud sylwadau a gofyn cwestiynau. Bydd y dudalen hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd
- Bydd negeseuon e-bost misol yn cael eu hanfon at randdeiliaid gyda diweddariad ar statws a chynnydd y rhaglen ymgysylltu a bydd y rhain yn cael eu rhannu ar y wefan hefyd
- Bydd blogiau a ffurfiau eraill ar gyfathrebu'n cael eu defnyddio i ddarparu esiamplau o bwyntiau dysgu a datblygiadau interim, gan godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth
- Bydd tîm y cyfryngau yn Chwaraeon Cymru yn gwahodd y cyfryngau i roi sylw i straeon am Y Sgwrs, gan gynnwys cyhoeddi'r Weledigaeth a'r Strategaeth ddrafft os yw hynny'n briodol
- Byddwn yn mabwysiadu defnydd rheolaidd o sianelau cyfryngau cymdeithasol i helpu i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn postio eitemau ac yn gofyn am adborth ar amrywiaeth o sianelau, gan ddefnyddio hashnod
- Bydd pobl yn gallu cymryd rhan yn y broses mewn digwyddiadau a gweithdai
- Byddwn yn croesawu cefnogaeth partneriaid i dynnu sylw at gynnydd gyda datblygiadau a gweithio unedig
- Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o wahanol fformatau, gan gynnwys elfennau gweledol a fideos, i esbonio cynigion ac i sicrhau eu bod yn cael eu deall
- Bydd y deunyddiau ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â strategaeth iaith Gymraeg Chwaraeon Cymru.

Adran 2

2.1 Cam 1: Trochi

Bydd tîm y prosiect yn cynnal cyfnod trochi i sicrhau bod y wybodaeth, y tueddiadau a'r cyd-destun polisi presennol ar gyfer chwaraeon a ffactorau eraill yn cael eu hystyried a'u deall.

Bydd y cyfnod trochi'n cynnwys y canlynol:

- Cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Prif Weithredwr, y Cadeirydd a chyfarwyddwyr perthnasol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn bwysig er mwyn i ni sicrhau dealltwriaeth glir o feini prawf llwyddiant Chwaraeon Cymru
- Gwahoddir sawl sefydliad partner i ymuno â grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a byddwn hefyd yn ffurfio panel dinasyddion. Gofynnir i'r grwpiau hyn am eu safbwyntiau ar y meysydd allweddol i'w trafod a'r dull ymgysylltu a fabwysiedir.
- Cyfarfod penodol ar lywodraethu i gytuno ar sut cytunir ar faterion a sicrhau cymeradwyaeth, sut mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â rhaglenni eraill, sut bydd Bwrdd Chwaraeon Cymru eisiau derbyn adroddiadau cynnydd ac, yn y pen draw, sut adroddir ar ganlyniadau i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid
- Ymchwil desg pellach i sicrhau bod pob agwedd ar Adolygiad Chwaraeon Cymru'n cael eu deall a'u cynnwys os oes angen yn y rhaglen ymgysylltu
- Ystyried sut orau i gynnwys rhaglenni eraill, gan gynnwys gwaith y strategaeth elitaidd a gwaith y Bartneriaeth Gweithgarwch Chwaraeon Cymunedol, gan gynnwys y rhaglen ymgysylltu sy'n gysylltiedig â datblygu'r endidau rhanbarthol a cham Mabwysiadwr Cynnar y Model Gweithredu newydd arfaethedig ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol
- Trafodaethau gyda nifer o randdeiliaid allanol i sicrhau ein bod yn gwrando ar bersbectif allanol wrth gynllunio'r gwaith.

Bydd yr uchod yn helpu fel sail i'r cynllun hwn ac yn ei esblygu, gan sicrhau ei fod yn addas i bwrpas. Fodd bynnag, bydd y ddogfen yn esblygu fel ymateb i ddulliau newydd o weithredu a'r awgrymiadau rydym yn eu derbyn.

2.1.1 Deall deddfwriaeth a gofynion polisi Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfeiriad polisi clir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn y ddogfen ddiweddar, *Ffyniant i Bawb*. Mae'r ddogfen hon yn

dilyn deddfwriaethau diweddar, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, sy'n darparu fframwaith clir iawn i gyrff cyhoeddus weithio oddi mewn iddo er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a buddsoddiadau cyhoeddus o fudd i bobl ledled Cymru. Bydd y Sgwrs yn ystyried y cyd-destun polisi pwysig hwn. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei phenderfyniad i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan gynnwys ymhlith y grwpiau mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas, fel bod llawer mwy o blant ac oedolion ledled Cymru'n bodloni cyfarwyddyd y Prif Swyddog Meddygol ar gyfer lefelau gweithgarwch.

Bydd adolygiad o'r ddeddfwriaeth berthnasol, y cyfarwyddyd a'r gofynion eraill yn cael ei gynnal. Hefyd byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn deall sut gall eu cylchoedd gorchwyl a'u strategaethau gefnogi Gweledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon. Bydd strategaethau partneriaid allweddol yn cael ystyriaeth ofalus hefyd fel rhan o'r rhaglen hon.

Mae'r Sgwrs yn cael ei chynnal ar adeg pryd ceir cytundeb eang o ran polisi cyhoeddus bod rhaid i'r modelau presennol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus newid er mwyn ystyried y sbardunau polisi cyhoeddus canlynol mewn hinsawdd o gyllidebau'n lleihau:

- Galw cynyddol – mae mwy o bobl eisiau cefnogaeth gan y sector cyhoeddus (mae hyn yn digwydd i raddau helaeth am fod pobl yn byw yn hirach ac mae cynnydd yn nifer y bobl hyn fel cyfran o'r boblogaeth)
- Cymhlethdod angen – yn aml mae pobl sydd angen cefnogaeth gan y sector cyhoeddus angen gwasanaeth gan fwy nag un asiantaeth. Mae hyn yn gofyn i sefydliadau gydweithio'n agosach
- Newidiadau mewn cymdeithas yn ehangch – er enghraifft, mae pobl yn disgwyl gallu ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng amrywiaeth o dechnolegau
- Effeithlonrwydd – efallai y bydd modelau newydd yn gallu gwneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon mewn meysydd fel comisiynu, atal ac ymyriadau cynnar
- Ehangu cyfranogiad – er enghraifft, mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* yn tynnu sylw at y ffaith y dylai pob cymuned a phob rhan o gymdeithas elwa o wasanaethau cyhoeddus.

2.1.2 Y materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru

Hefyd bydd y Sgwrs yn ystyried y materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru heddiw, fel incwm, diogelwch ac iechyd. Bydd deall y materion hyn a'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu sy'n eu hatal efallai rhag cymryd rhan mewn chwaraeon neu fod yn egniol yn bwysig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei [hadroddiad blynyddol cyntaf ar Lesiant Cymru](#) yn ddiweddar ac mae'n gipolwg diddorol. Bydd tystiolaeth ymchwil fel hyn yn elfen sylfaenol o'r Sgwrs.

Mae'r adroddiad yn dangos y canlynol:

- Mae disgwyliad oes wedi bod yn cynyddu'n eang ac mae'r amser a dreulir mewn iechyd da wedi bod ar gynnydd. Fodd bynnag, mae anghydraddoldeb yn parhau ar draws gwahanol grwpiau
- Mae nifer y bobl sy'n ysmegu ac yn yfed alcohol yn gostwng ond, yn gyffredinol, mae un o bob deg o bobl yn dilyn llai na dau ymddygiad ffordd o fyw da. Mae gordewdra mewn oedolion wedi codi yn y tymor hir
- O ran dechrau iach i fywyd, mae cynnydd da wedi'i wneud mewn meysydd fel bwydo o'r from ac iechyd deintyddol, ond mae gordewdra mewn plant yn parhau'n her
- Mae pobl yn fwy tebygol nag erioed o fod mewn gwaith yng Nghymru, er bod heriau economaidd hanesyddol yn parhau yng Nghymru. Er bod cael swydd yn lleihau'r siawns o fod yn dlawd, mae tlodi mewn gwaith yn cynyddu wrth i fwy o bobl fod mewn gwaith. Ystyrir bod dwy ran o dair o'r gweithwyr mewn gwaith gweddus
- Fel yng ngweddill y DU, ni fu llawer o welliant yn incwm pobl, ond mae bwch cyflog y rhywiau wedi lleihau ac mae cyflawniad addysgol ar gynnydd
- Mae tlodi incwm cymharol wedi parhau'n ystyfnig ac mae ar ei uchaf ymhlith plant, er mae canran is o'r boblogaeth yn dweud eu bod mewn amddifadedd sylweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn parhau'n anghydraddoldeb allweddol i rai canlyniadau, fel cyflawniad addysgol a disgwyliad oes
- Mae anghydraddoldeb yn parhau mewn gwahanol ddangosyddion ac ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth. Er enghraifft, mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol, ac mae merched yn teimlo'n llai diogel yn eu cymunedau na dynion

- Mae ymdeimlad pobl o gymuned ac o berthyn yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon â ble maent yn byw, er mae un o bob pump yn teimlo'n unig
- Mae llawer o oedolion yn mynychu ac yn cymryd rhan mewn diwylliant a chwaraeon ac mae'r tueddiadau ar gynnydd yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r cyfranogiad yn amrywio yn ôl oedran a chefnidir
- Mae un o bob pump o bobl yn siarad Cymraeg ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae data wedi awgrymu bod cynnydd yn nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg ond nid yn rhugl tra bo'r defnydd o'r iaith wedi parhau'n gyson
- Mae ansawdd dŵr ac ansawdd aer yng Nghymru'n parhau i wella ac mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng. Fodd bynnag, mae llygredd aer yn parhau'n broblem iechyd arwyddocaol
- Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi bod ar gynnydd. Ond mae ein hól troed ecolegol yn awgrymu bod ein hadnoddau naturiol allweddol yn cael eu dihysbyddu'n gynt nag y gellir eu hatgyflenwi
- Yn gyffredinol, mae amrywiaeth fiolegol yn dirywio ac nid oes modd dweud bod gan unrhyw ecosystemau yng Nghymru yr holl nodweddion y mae arnynt eu hangen i fod yn gadarn.

2.2 Cam 2 – Gwrando a llunio (creu ar y cyd)

Mae'r adran hon yn cynnwys y ffyrdd y mae pobl yn cynllunio i gynnwys ac ymgysylltu â phobl yng nghamau cynnar y broses. Byddwn yn 'barod i wrando' – gan wahodd pobl a sefydliadau i awgrymu a chyflwyno sylwadau ar y materion a'r themâu allweddol y dylid rhoi sylw iddynt yn y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a'r Strategaeth.

2.2.1 Gwahodd ymatebion

Byddwn yn rhoi cychwyn i'r cam cynhyrchu ar y cyd drwy roi gwybod i amrywiaeth eang o randdeiliaid am Y Sgwrs. Byddwn yn esbonio'r ffyrdd i bobl gymryd rhan ac yn annog pobl i wneud hynny. Hefyd byddwn yn defnyddio amrywiaeth o wahanol sianelau cyfathrebu (fel y nodwyd yn gynharach) er mwyn annog unigolion ledled Cymru i gymryd rhan.

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn www.chwaraeon.cymru ac yn esbonio'r gwahanol ffyrdd i bobl ymateb a mynegi eu barn i ni.

2.2.2 Cyfarfodydd

Byddwn yn gwahodd sawl sefydliad i gyfarfod â ni i drafod y materion allweddol ar gyfer chwaraeon, gan gynnwys sut gall Chwaraeon Cymru a phartneriaid penodol gyfrannu at roi sylw i rai o'r heriau rydym yn eu hwynebu yng Nghymru. Os yw hynny'n bosib, bydd yn ddoeth i Chwaraeon Cymru fod mewn cyfarfodydd lle mae nifer o sefydliadau sydd â'r un cylch gorchwyl eisoes yn cyfarfod â'i gilydd. Bydd hon yn ffordd effeithlon o sicrhau'r mewnbwn gorau gan sefydliadau a lleihau'r baich ar sefydliadau allanol.

2.2.3 Grŵp cyfeirio rhanddeiliaid

Byddwn yn sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid er mwyn helpu i sicrhau bod sefydliadau partner yn cael cyfle i gyfrannu at redeg rhaglen y sgwrs ac, yn benodol:

- Cyfrannu cyngor a chyfarwyddyd at y prosiect
- Cyfrannu syniadau ac awgrymiadau i helpu i sicrhau bod yr ymgysylltu a'r ymgynghori'n effeithiol
- Helpu i sicrhau bod y prosiect yn lleihau blinder ymgynghori drwy ganfod fforymau, digwyddiadau a sianelau eraill sy'n bodoli eisoes ac y gellir eu defnyddio
- Derbyn data sy'n dod i'r amlwg o'r prosiect a rhoi cyngor ar ôl cyrraedd cerrig milltir allweddol yn y prosiect (cam trochi, cam gwrando a cham ymgynghori) gan gynnwys ar unrhyw fylchau yn y data a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg
- Annog sefydliadau i gyfrannu at y Weledigaeth newydd ac ymrwymo iddi

2.2.4 Panel dinasyddion a chynnwys unigolion

Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn hefyd yn gwahodd pobl i ymuno â phanel dinasyddion i helpu i sicrhau bod y rhaglen yn cynnal ei ffocws ar y materion sy'n bwysig i ni fel Cymry. Byddwn hefyd yn ymgysylltu ag unigolion i sicrhau ein bod yn cael adborth ar y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.

- Rydym yn bwriadu gwahodd pobl sydd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn ymchwil chwaraeon i gwblhau holiadur byr am beth sy'n bwysig iddynt hwy
- Byddwn hefyd yn holi am safbwyntiau pobl nad ydynt yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon drwy gyfrwng arolwg strwythuredig
- Hefyd, bydd unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno safbwyntiau a chymryd rhan yn Y Sgwrs yn gallu gwneud hynny ar wefan Chwaraeon Cymru.

2.2.5 Digwyddiadau

Byddwn yn cynnal pedwar digwyddiad ledled Cymru er mwyn gallu ymgysylltu â rhanddeiliaid cenedlaethol a sefydliadau lleol a chymunedol, ac aelodau eraill o'r cyhoedd sydd â diddordeb. Rydym yn bwriadu cynnal gweithdai a hwylusir yng Ngogledd Cymru; Canolbarth Cymru; De Orllewin Cymru; a De Ddwyrain Cymru.

Bydd graddfa'r digwyddiadau'n amrywio a thrwy ddewis lleoliadau hyblyg, byddwn yn gallu croesawu cynulleidfaoedd o wahanol faint. Rydym yn argymhell darparu hyd at dri gweithdy i bobl eu mynychu yn ystod y sesiwn fel bod pobl yn gallu edrych ar amrywiaeth o faterion sy'n bwysig iddynt. Yn gyffredinol bydd y gweithdai'n canolbwyntio ar thema benodol, fel cynyddu'r lefelau gweithgarwch corfforol yn y grwpiau hynny sydd â lefelau gweithgarwch isel ar hyn o bryd. Hefyd bydd y digwyddiadau hyn yn gyfle i dynnu sylw at yr atebion posib sydd ar gael, fel datblygu endidau chwaraeon a gweithgarwch rhanbarthol yn y Gogledd ac yng Ngwent. Yn wir, yng Ngogledd Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth Weinidogol i Chwaraeon Cymru symud i gam nesaf y Bartneriaeth Gweithgarwch Chwaraeon Cymunedol, byddwn yn defnyddio'r digwyddiad i dynnu sylw at y rôl y gall y Bartneriaeth hon ei chwarae ac yn gwahodd adborth. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Bydd cynllun digwyddiadau manwl yn cael ei gynllunio i sicrhau cymaint o amser gwrando â phosib. Bydd y digwyddiadau'n ystyried y sylfaen dystiolaeth bresennol am grwpiau cyfranogiad isel ac yn rhoi cyfle i bobl gyflwyno eu hatebion eu hunain i roi sylw i rai o'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu, gan gynnwys hwylustod, cymhelliant, lleoliad a thlodi.

2.2.6 Grwpiau ffocws

Rydym yn bwriadu cynnal gwaith penodol i gynulleidfa gyda grwpiau penodol o bobl. Bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i ofyn am safbwyntiau'n uniongyrchol gan grwpiau penodol sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn wynebu rhwystrau mewn chwaraeon ar hyn o bryd a gall y rhain eu hatal rhag cymryd rhan neu gyflawni eu llawn botensial. Ceir rhagor o wybodaeth am ein dull o weithredu yn Atodiad 2.

Byddwn yn gwahodd pobl i ymuno â grwpiau ffocws bach fel ein bod yn gallu casglu safbwyntiau grwpiau amrywiol o bobl:

- Pobl ifanc gan gynnwys llysgenhadon ifanc
- Pobl hŷn

- Merched
- Pobl anabl a gofalwyr
- Cymunedau DLIE.

2.2.7 Defnyddio digwyddiadau a rhwydweithiau eraill

Rydym yn awyddus i weithio'n agos â rhanddeiliaid. Byddwn yn gwahodd sefydliadau i raeadru gwybodaeth drwy gyfrwng eu rhwydweithiau fel bod mwy o bobl yn cael cyfle i glywed am y broses. Os oes adnoddau a siaradwyr ar gael, byddwn hefyd yn awyddus i fynychu digwyddiadau a chynadleddau i godi ymwybyddiaeth ac i wrando ar safbwyntiau pobl a'u cofnodi. Mae hon yn debygol o fod yn elfen sylweddol o'r rhaglen.

2.2.8 Cyfryngau cymdeithasol

Ochr yn ochr â rhai o'r digwyddiadau uchod, rydym yn bwriadu cynnal trafodaethau ar-lein penodol. Byddwn yn defnyddio sianelau cyfryngau cymdeithasol ac yn cynnal sesiwn hawl i holi ar Twitter a Facebook er mwyn annog pobl sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i fod yn rhan o'r broses. Byddwn yn defnyddio hashnod i helpu i gasglu ymatebion. Os yw hynny'n bosib, bydd uwch gynrychiolydd o Chwaraeon Cymru'n gallu ymateb i bobl sy'n trydar/postio gyda sylw neu gwestiwn.

2.2.9 Datblygu dogfennau drafft o'r Weledigaeth a'r Strategaeth

Drwy gydol y cyfnod hwn, byddwn yn dechrau cynnull gwybodaeth i fod yn rhan o ddogfennau'r Weledigaeth a'r Strategaeth. Bydd elfennau o'r dogfennau hyn yn cael eu rhannu a'u profi a bydd yr adborth parhaus rydym yn ei dderbyn yn cael ei ddefnyddio i lunio, mireinio a gwella'r dogfennau ymhellach.

Cyn y cam ymgynghori, byddwn yn cyhoeddi dogfennaeth ddrafft, a hefyd adroddiad ar yr ymgysylltu hyd yma, i'n Hadran nawdd yn Llywodraeth Cymru, i ofyn am ei mewnbwn a'i hadborth. Wedyn byddwn yn symud ymlaen i gam yr ymgynghoriad.

2.3 Cam 3 – Ymgynghoriad

Bydd y cam cynhyrchu ar y cyd yn cynnwys pobl yn effeithiol i sicrhau ein bod wedi casglu pwyntiau allweddol pobl a'u hystyried yn ofalus. Cam tri yw cam ffurfiol yr ymgynghoriad lle gofynnir cwestiynau penodol i bobl am y Weledigaeth a'r Strategaeth. Mae'r cam hwn yn gyfle i bobl a sefydliadau fynegi eu barn, nodi beth sydd ar goll ac awgrymu syniadau eraill ar gyfer eu hystyried.

2.3.1 Cyhoeddi'r Weledigaeth ddrafft a'r Strategaeth ddrafft

Bydd y dogfennau'n cael eu cyhoeddi mewn fformat drafft ac yn sail i'r ymgynghoriad. Paratoir dogfennau'r Weledigaeth a'r Strategaeth mewn iaith syml gan osgoi jargon os yw hynny'n bosib. Bydd y dogfennau ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn fformatau gwahanol ar gyfer pobl anabl a bydd fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

2.3.2 Ffurflen ymateb yr ymgynghoriad

Paratoir ffurflen ymateb fer i'r ymgynghoriad yn gofyn rhai cwestiynau allweddol i bobl am y dogfennau, gan gynnwys a oes ganddynt syniadau ychwanegol neu wahanol. Bydd yr holiadur yn un ticio bocsys yn bennaf, i gynorthwyo gyda dadansoddi'r ymatebion, ond bydd hefyd nifer bach o atebion testun rhydd. Bydd ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar gael ar y wefan. Byddwn yn rhaeadru gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn eang ac yn cyfeirio pobl yn y lle cyntaf at y wefan. Fodd bynnag, bydd copïau papur ar gael hefyd i bobl nad ydynt yn defnyddio'r Rhyngwrwyd.

2.3.3 Cyhoeddi dogfennau drafft

Bydd y gweithgarwch ychwanegol canlynol yn cael ei gynnal i dynnu sylw at gyhoeddi'r Weledigaeth a'r Strategaeth ddrafft:

- Byddwn yn darparu dolen at y strategaeth ddrafft i bartneriaid drwy gyfrwng eu sianelau eu hunain
- Anfonir neges gyfathrebu gan Brif Weithredwr a Chadeirydd Chwaraeon Cymru at yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid yn y gronfa ddata, yn rhoi gwybod iddynt am y strategaeth ddrafft (ar-lein) ac yn gwahodd cyfraniadau ac adborth
- Byddwn yn darparu deunyddiau'n rhagweithiol i'r cyfryngau er mwyn ehangu'r ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad
- Defnyddir cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i bobl. Bydd y tîm cyfathrebu'n postio'n rheolaidd i wahodd pobl i leisio eu barn
- Yn ddelfrydol dylai copïau papur o'r strategaeth fod ar gael mewn cyfleusterau cymunedol, fel llyfrgelloedd.

2.3.4 Gweithgarwch wyneb yn wyneb

- Rydym yn rhagweld y bydd amseriad cynhadledd bob dwy flynedd Chwaraeon Cymru'n cyd-fynd â chyhoeddi'r strategaeth ddrafft. Bydd hwn yn gyfle gwych i ymgysylltu â phobl yn y gynhadledd yn ei chylch
- Byddwn yn gofyn am slotiau siarad ac amser gweithdy mewn digwyddiadau perthnasol presennol gan randdeiliaid os yw hynny'n bosib
- Hefyd byddwn yn sefydlu dau i bedwar digwyddiad gan Chwaraeon Cymru ar gyfer cyflwyno'r strategaeth a'i thrafod mewn fformat gweithdy. Bydd y digwyddiadau hyn yn gyfle ychwanegol i randdeiliaid leisio eu barn ar y strategaeth ddrafft
- Byddwn yn ystyried gweithio gyda phartneriaid mewn digwyddiadau chwaraeon mawr yn ystod y cyfnod ymgynghori o chwe wythnos i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad
- Byddwn yn darparu deunyddiau priodol am yr ymgynghoriad ar gyfer eu defnyddio ar sgriniau a hysbysfyrddau er mwyn i bartneriaid eu rhaedru ymlaen i'r gymuned leol a digwyddiadau clwb. Hefyd byddwn yn gofyn i bartneriaid ddsbarthu deunyddiau yn eu rhwydweithiau eu hunain.

2.3.5 Casglu a dadansoddi adborth

Mae'n bwysig bod sianelau adborth clir i bobl eu defnyddio os ydynt yn dymuno cysylltu â'r rhaglen gydag unrhyw sylwadau, pryderon neu syniadau newydd yr hoffent iddynt gael eu hystyried cyn yr ymgynghoriad. Bydd pobl yn dal i allu cysylltu â'r rhaglen fel y nodir isod.

- Ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen cysylltu www.chwaraeon.cymru
- E-bost. Gall pobl e-bostio ar feedback@sport.wales
- Drwy'r post i: Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd
- Ar Facebook a Twitter.

Os yw hynny'n bosib, byddwn yn annog pobl i ddarparu gwybodaeth gan ddefnyddio sianel adborth ar-lein, Doopoll. Bydd hyn yn ein galluogi i gasglu ymatebion pobl a dadansoddi'r adborth mewn ffordd gadarn. Hefyd bydd pobl yn gallu darparu adborth ar bapur, ar e-bost, ar gyfryngau cymdeithasol ac yn ystod cyfarfodydd a digwyddiadau.

Bydd yr holl adborth o'r ffurflen bapur, y ffurflen ar-lein, ar e-bost ac mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb yn cael ei gasglu i adroddiad. Os yw hynny'n bosib, bydd dadansoddiad ystadegol yn tynnu sylw at brif elfennau'r adborth a bydd y dadansoddiad ansoddol yn edrych ar y farn a'r rhesymu sy'n sail i'r safbwyntiau hyn.

Rydym yn bwriadu llunio adroddiad cyn i'r ymgynghoriad ddechrau er mwyn cyflwyno trosolwg o'r materion a godwyd yn ystod y cam cynhyrchu ar y cyd ac adroddiad pellach ar ddiwedd proses yr ymgynghoriad i helpu fel sail i benderfyniad terfynol y Bwrdd. Hefyd llunnir crynodeb o'r adborth, a ddsberthir i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac a oedd yn dymuno cael gwybodaeth gyson.

Bydd yr adroddiadau'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Y themâu allweddol sydd wedi'u codi, y pwyntiau allweddol a wnaed o dan bob thema a sut mae Chwaraeon Cymru wedi ystyried y materion a godwyd
- Cofnod o'r mathau amrywiol o gyfarfodydd/digwyddiadau a gynhaliwyd
- Rhestr o'r rhanddeiliaid sy'n ymwneud â sylwebaeth gymunedol ar lefel y cymryd rhan gan wahanol sectorau, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig
- Esiamplau o'r deunyddiau a ddefnyddir mewn sesiynau gweithdy ac, yn achos yr ail adroddiad, crynodeb o'r ymatebion i'r holiadur.

Bydd yr adroddiadau ar gael yn gyhoeddus ar wefan Chwaraeon Cymru. Bydd dolenni at yr adroddiadau ar gael i bawb sydd wedi ymateb.

2.4 Cam 4 – Ymrwymo a lansio

2.4.1 Cyhoeddi'r dogfennau terfynol

Ar ôl dadansoddi'r holl adborth, bydd adroddiad cryno'n cael ei baratoi gyda'r canfyddiadau.

Mewn perthynas â'r Weledigaeth

Byddwn yn rhannu'r canfyddiadau ac yn gofyn i sefydliadau ymrwymo i ddogfen adolygedig y Weledigaeth sy'n ystyried yr adborth a dderbyniwyd.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan fwrdd Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru, byddwn yn cyhoeddi'r dogfennau terfynol. Byddwn yn rhaeadru'r wybodaeth hon yn eang ac yn diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses. Bydd cynllun ar wahân yn cael ei baratoi ar gyfer y cam gweithgarwch hwn.

Mewn perthynas â'r strategaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru

Bydd Bwrdd Chwaraeon Cymru yn derbyn y canfyddiadau ac yn ystyried y wybodaeth yn ofalus, gan gynnwys unrhyw adolygiadau i ddogfen y strategaeth. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r strategaeth a chytuno ar yr amseroedd ar gyfer ei rhoi ar waith.

Atodiadau

Atodiad 1: Llinell Amser

Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin
Gwrando a llunio (creu ar y cyd)				Ymgynghoriad		Ymrwymo a lansio	

Atodiad 2: Grwpiau â nodweddion gwarchoddedig

Mae'r tabl isod yn datgan esiamplau o'r grwpiau â nodweddion gwarchoddedig a sut rydym yn bwriadu gweithio â hwy yn ystod y rhaglen.

Grwpiau	Dull o Weithredu
Plant a phobl ifanc	Byddwn yn cymryd sawl cam i sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd priodol i blant a phobl ifanc (yn enwedig merched) fod yn rhan o'r Sgwrs ac i'n galluogi i gasglu eu safbwyntiau. Er enghraifft, byddwn yn cynnal gweithdy penodol gyda llysgenhadon ifanc a phobl ifanc eraill i ddarparu cyfle hygyrch i bobl ddeall yr heriau rydym yn awyddus i roi sylw iddynt gyda phobl ifanc. Byddwn yn gwahodd grwpiau eraill sy'n canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal i gymryd rhan. Byddwn yn gwrandao ar eu hadborth. Hefyd mae ein dull o weithredu'n golygu y bydd pobl ifanc yn gallu cyfrannu ar gyfryngau cymdeithasol, ar ffurflen ymateb yr ymgynghoriad a thrwy ddigwyddiadau wyneb yn wyneb. Byddwn hefyd yn gwahodd rhieni i raeadru gwybodaeth drwy gyfrwng grwpiau cymdeithasol gan ysgolion.
Pobl hŷn	Mae'r nifer cynyddol o bobl hŷn yn gynulleidfa bwysig. Byddwn yn cysylltu â grwpiau fel WCVA a'r comisiynydd pobl hŷn, sy'n cynrychioli safbwyntiau pobl hŷn, i'w gwahodd i chwarae rhan weithredol yn y broses, ac yn cynnal grŵp ffocws penodol yn y cam cynhyrchu ar y cyd.
Merched	Mae merched yn wynebu llawer o rwystrau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon. Byddwn yn profi'r wybodaeth sydd gennym eisoes, er enghraifft, y wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr ymgyrch Merched a Genethod, gyda grŵp ffocws merched yn unig, ac yn gwahodd gwybodaeth ychwanegol gan ferched a'r grwpiau sy'n eu cynrychioli. Hefyd bydd merched, grwpiau merched, grwpiau chwaraeon allweddol a grwpiau diddordeb eraill yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu ehangach.
Oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, pobl ag un neu fwy o gyflyrau tymor hir, gan gynnwys pobl anabl a gofalwyr	Mae cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith pobl anabl yn amrywio'n sylweddol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd gennym eisoes, yn ogystal â'r wybodaeth sydd wedi cael ei darparu i ni. Hefyd byddwn yn gwahodd sefydliadau anabledd a gofal allweddol, gan gynnwys Anabledd Cymru, Gofalwyr Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru i chwarae rhan weithredol yn y broses. Bydd gweithdy penodol yn cael ei drefnu gyda phobl anabl a gofalwyr er mwyn ystyried gwybodaeth ychwanegol, y rhwystrau y mae'n rhaid i ni eu goresgyn ac awgrymiadau.

Hil	Mae'r cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith rhai grwpiau DLIE yn is nag mewn grwpiau cynulleidfa eraill. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd gennym eisoes, yn ogystal â gwybodaeth sydd wedi cael ei darparu i ni. Byddwn hefyd yn gwahodd sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau a chwaraeon DLIE lle ceir cyfraddau cymryd rhan uchel i gymryd rhan yn y broses. Bydd gweithdy penodol yn cael ei drefnu i ystyried gwybodaeth ychwanegol, rhwystrau y mae'n rhaid i ni eu goresgyn ac awgrymiadau gyda chymunedau DLIE. Byddwn yn gwahodd sefydliadau fel WCVA a Chyngor Hil Cymru i'n cynorthwyo.
Grwpiau ffydd	Byddwn yn gofyn am gyngor gan sefydliadau ffydd i raeadru gwybodaeth am sut mae pobl yn cymryd rhan yn y broses.
Cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd	Byddwn yn cysylltu â Trans Wales, Prides Sports a Stonewall ac yn eu gwahodd i raeadru gwybodaeth drwy eu rhwydweithiau i sicrhau bod pobl yn cael eu croesawu'n frwd i gymryd rhan yn y broses.
Pobl â phroblemau iechyd meddwl a chaethiwed	Ceir tystiolaeth gynyddol o gyswllt rhwng chwaraeon ac iechyd meddwl o ran y pwysau a'r problemau iechyd meddwl mae rhai athletwyr yn eu hwynebu, yn ogystal â'r manteision chwaraeon o ran grymuso pobl sy'n gaeth i sylweddau a/neu sydd â phroblemau iechyd meddwl. Byddwn yn ystyried y wybodaeth sydd gennym eisoes a'r deunydd ychwanegol y byddwn yn ei dderbyn. Byddwn yn gofyn am gyngor - er enghraifft, gan Mind Cymru - ar y ffordd orau o ddarparu cyfleoedd priodol i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl gymryd rhan yn y Sgwrs.
Siaradwyr Cymraeg	Hoffem weithio gyda'r Urdd i gyrraedd siaradwyr Cymraeg. Bydd yr holl ddeunyddiau sydd ar gael ar gyfer y cyhoedd yn y Gymraeg.
Sipsiwn a chymunedau teithiol	Byddwn yn gweithio gyda phartner yn yr awdurdodau lleol ac yn gofyn am gyngor ar y ffyrdd gorau o sicrhau adborth.

Atodiad 3: Llywodraethu

Responsibilities

Board

- Agree vision and strategy
- Strategic oversight of process

Welsh Government

- Formally validate draft vision and strategy
- Informally validate vision and strategy through development

Executive team

- Agree draft vision, strategy and underpinning detail
- Oversee work packages/themes
- Ensure wider organisational support

The Project

- Overall programme management
- Drafting vision and strategy
- Consultation and engagement

sportwales
chwaraeon cymru

The Project



sportwales
chwaraeoncymsu

Delivery (project level)



sportwales
chwaraeoncymsu